Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Asesu, cofnodi ac adrodd yn defnyddio'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol

www.cymru.gov.uk



## Canllawiau

Dogfen ganllawiau rhif: 142/2014
Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2014

# Asesu, cofnodi ac adrodd yn defnyddio'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig yng Nghymru; awdurdodau lleol a chonsortia addysg ranbarthol Cymru; undebau; sefydliadau amrywiol sydd â diddordeb mewn llythrennedd a rhifedd; ac aelodau o'r cyhoedd. |
| **Trosolwg** | Diben y ddogfen ganllaw hon yw i gynorthwyo ysgolion gydag asesu, cofnodi ac adrodd yn defnyddio'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh) |
| **Camau i'w cymryd** | Dim – er gwybodaeth yn unig. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:<br>Cangen Gweithredu'r FfLlRh<br>Yr Adran Addysg a Sgiliau<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>Ffôn: 029 2082 1042<br>e-bost: curriculumdivision@cymru.gsi.gov.uk |
| **Copïau ychwanegol** | Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.dysgu.cymru.gov.uk |
| **Dogfennau cysylltiedig** | *Asesu ar gyfer dysgu a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol* (2013); *Rhaglen Gymorth Genedlaethol: Canllaw ar gyfer ysgolion* (2013); *Pam ddatblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn yr ystafell ddosbarth?* (2010). |

ISBN digidol 978 1 4734 1594 2
© Hawlfraint y Goron 2014
WG22261

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **3** |
| **Dulliau asesu, cofnodi ac adrodd (ACA) ysgol gyfan** | **4** |
| **Atodiad 1: Enghreifftiau o sylwadau naratif** | **21** |
| **Atodiad 2: Cynllunio'r cwricwlwm i olrhain – enghraifft ar gyfer ysgolion uwchradd** | **25** |
| **Atodiad 3: Adnoddau defnyddiol** | **30** |

# Cyflwyniad

Daeth y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLlRh) yn ofyniad cwricwlwm statudol ym mis Medi 2013. Bydd yr asesiad ffurfiannol yn defnyddio'r FfLlRh yn dod yn ofyniad statudol o fis Medi 2014.

Mae hyn yn golygu y bydd angen i ysgolion adolygu a datblygu eu systemau asesu cyfredol i sicrhau:

- bod asesu dosbarth parhaus yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i fonitro cynnydd, trafod y camau nesaf a gosod tasgau priodol
- bod eu polisi asesu, cofnodi ac adrodd (ACA) yn nodi'n glir sut y bydd sgiliau llythrennedd a rhifedd dysgwyr yn cael eu monitro a'u cofnodi ar draws y cwricwlwm a thrwy gyfnodau allweddol at ddibenion ffurfiannol
- y gallan nhw ddarparu adroddiadau naratif clir a llawn gwybodaeth i rieni/gofalwyr ar yr hyn y gall eu plentyn ei wneud, a meysydd i'w datblygu mewn perthynas â'r FfLlRh.

Nid yw cyflwyno asesiad statudol yn defnyddio'r FfLlRh yn ei gwneud yn ofynnol i symud i ffwrdd oddi wrth asesiad ffurfiannol. Ym mis Medi 2014, nid oes disgwyl i ysgolion gyrraedd dyfarniad grŵp blwyddyn sengl mewn perthynas â'r FfLlRh. Dylai'r ffocws fod ar ddatblygu dull cydlynol o asesu ar draws y cwricwlwm sy'n cefnogi cynnydd y dysgwyr. Bydd gofyn i athrawon/ymarferwyr asesu drwy ddefnyddio'r FfLlRh ym mhob pwnc (lle bo'n briodol). Dylai ysgolion roi systemau ar waith sy'n hwyluso cydweithio rhwng athrawon/ymarferwyr er mwyn sicrhau bod dealltwriaeth gyflawn o ddatblygiad unigolyn mewn llythrennedd a rhifedd drwy ddefnyddio'r FfLlRh.

Diben y ddogfen ganllaw hon, felly, yw cefnogi ysgolion yn y broses o wella safonau llythrennedd a rhifedd i bob dysgwr yng Nghymru. Mae'n rhan o'r ystod o ddogfennau canllawiau a gynhyrchwyd i gefnogi'r FfLlRh, ac mae'n gyson â hyfforddiant a chanllawiau a ddarperir gan y Rhaglen Gefnogi Genedlaethol (RhGG) yn ystod Cam 3 y rhaglen.

Mae'r deunyddiau yn y ddogfen yn seiliedig ar y gwaith sydd wedi ei adnabod mewn ysgolion ar draws Cymru fel ymarfer effeithiol sy'n dod i'r amlwg, a bydd yn cael ei gefnogi a'i ddatblygu yng Nghamau 3 a 4 y RhGG.


Asesu, cofnodi ac adrodd yn defnyddio'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol

Gorffennaf 2014

Dogfen ganllawiau rhif: 142/2014

# Dulliau asesu, cofnodi ac adrodd (ACA) ysgol gyfan

**Ffigwr 1: Strategaeth ac ymarfer ACA FfLlRh effeithiol**




## 1. Asesu yn llywio cynllunio a chyflenwi'r FfLlRh

### Egwyddorion arweiniol

- Mae cynllunio ysgol gyfan ar gyfer asesu yn rhan annatod o gynllunio'r cwricwlwm ac yn barhad ohono.
- Mae asesiad FfLlRh yn digwydd ar draws y cwricwlwm ac nid yw wedi ei gyfyngu i Gymraeg, Saesneg a mathemateg.
- Mae canlyniadau asesu yn llywio cynllunio tymor byr, canolig a hir ar gyfer cynnydd sgiliau FfLlRh ar draws pynciau, grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol.
- Mae asesu yn chwarae rhan ganolog wrth lywio cynnydd mewn llythrennedd a rhifedd.
- Mae dysgwyr yn cael cyfleoedd i atgyfnerthu a chymhwyso sgiliau mewn amrywiaeth o gyd-destunau; gyda chynnydd mewn cymhlethdod, galw, dod yn gyfarwydd â chyd-destun ac ymreolaeth yn cael ei gynllunio'n ofalus.


Asesu, cofnodi ac adrodd yn defnyddio'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol

Gorffennaf 2014

Dogfen ganllawiau rhif: 142/2014

- Mae athrawon yn defnyddio'r FfLlRh fel continwwm sgiliau ac maen nhw'n meddu ar wybodaeth ymarferol dda o ddatblygiad llythrennedd a rhifedd ar gyfer pob blwyddyn.
- Mae asesu yn adnabod dysgwyr sy'n dangos cymhwysedd mewn sgiliau nad ydyn nhw'n cyd-fynd â'r disgwyliadau ar gyfer eu grŵp blwyddyn penodol – hynny yw dysgwyr sy'n cynyddu ymhellach, yn gyflymach neu'n arafach mewn un neu fwy o sgiliau, ac mae athrawon yn cynllunio a gwahaniaethu yn unol â hynny.
- Mae athrawon ar draws gwahanol grwpiau blwyddyn, cyfnodau allweddol a chamau yn gweithio gyda'i gilydd i rannu eu dealltwriaeth ac i ddatblygu cyfleoedd ystyrlon ar gyfer dysgu ac asesu.
- Mae canlyniadau asesu yn cael eu defnyddio i gyflwyno ymyriadau penodol yn ôl yr angen.

**Rhoi egwyddorion ar waith**

Fel y nodir yn nogfen Llywodraeth Cymru *Canllawiau ar gynllunio'r cwricwlwm* (2013), mae'n hanfodol fod gwaith cynllunio ar gyfer asesu yn rhan annatod o gynllunio'r cwricwlwm a'i fod yn cyd-fynd ag ef. Bydd angen i ysgolion sicrhau bod systemau ysgol gyfan ar waith er mwyn helpu asesu sgiliau llythrennedd a rhifedd mewn modd cyson a thrylwyr ar draws y cwricwlwm.

Mewn rhai ysgolion, mae polisïau ac ymarfer ysgol gyfan ac adran pwnc wedi cael eu diwygio er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion y FfLlRh. Mewn un ysgol gynradd, mae meddwl 'cydgysylltiedig' wedi galluogi'r ysgol i greu unedau gwaith sy'n seiliedig ar y FfLlRh. Mewn rhai ysgolion uwchradd, mae gofynion y FfLlRh wedi cael eu mapio allan fel bod pob adran yn cael syniad clir o'r sgiliau y mae disgwyl iddynt ymdrin â nhw a'u hasesu. Mae diwrnodau hyfforddi staff ysgol gyfan ar lythrennedd a rhifedd wedi helpu i adeiladu mesur o gysondeb mewn dulliau adrannol. Mewn nifer o achosion, mae'r ysgolion wedi nodi pynciau neu rhai cyd-destunau fel y rhai sydd fwyaf priodol ar gyfer cyflenwi ac asesu sgiliau arbennig y FfLlRh.

**Astudiaeth achos: ysgol gynradd**

Er mwyn gweithredu'r FfLlRh mewn modd cydlynol a fyddai mor ddefnyddiol â phosib i'r dysgwyr, roedden ni wedi penderfynu nad oedden ni am fynd ati i fapio'r ddarpariaeth bresennol yn unig, ond yn hytrach i ddatblygu ein cwricwlwm gyda'r FfLlRh fel man cychwyn. Felly, fel ysgol, roedden ni wedi datblygu ein cynllunio fel bod ffocws ar 'dasgau cyfoethog', sy'n seiliedig ar ddigwyddiadau bywyd go iawn, fel ffordd o sicrhau bod y dysgwyr yn gallu cymhwyso'r sgiliau a ddysgwyd mewn gwersi mewn ffordd realistig, bleserus a chynyddol heriol. Er mwyn gweithredu'r dull hwn, rydyn ni wedi:

- sefydlu gofynion y FfLlRh o fewn a rhwng dosbarthiadau, ac wedi adnabod meysydd o gryfder a meysydd i'w datblygu o fewn yr ysgol
- cyflwyno dull thematig newydd sy'n canolbwyntio ar y dysgwyr yn derbyn sgiliau ar gyfer digwyddiad bywyd go iawn, e.e. cynllunio a chynnal dathliad – rydyn ni wedi canfod bod mwy o allu gan rai pynciau i ddatblygu rhai sgiliau penodol nag eraill ac rydyn ni wedi cynllunio'n unol â hynny
- wedi creu ffurfiau o asesu sy'n cynnwys y dysgwyr yn gwerthuso eu datblygiad a'u camau nesaf eu hunain, sydd wedyn yn cael ei ddefnyddio i lywio'r cynllunio.

Mae dulliau eraill yn cynnwys:


- adnabod sgiliau penodol y mae angen i unigolyn eu datblygu a chynllunio ymyriad dosbarth
- adnabod sgil penodol sydd angen ei ddatblygu o fewn carfan neu grŵp, a chynllunio dilynol, er mwyn creu ffocws dysgu, e.e. gall adrannau mewn ysgol uwchradd gydweithio i fynd i'r afael ag elfennau/agweddau penodol o'r FfLlRh naill ai trwy ddull thematig, neu drwy gynyddu cyfleoedd o fewn eu cyd-destun eu hunain
- adnabod anghenion penodol carfannau/grwpiau yn eu cynlluniau datblygu a darparu cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant ysgol gyfan, gan arwain at fwy o gyfleoedd i atgyfnerthu a datblygu'r sgiliau ar draws yr holl feysydd pwnc.

## 2. Asesu yn cael ei gynllunio, yn gadarn ac yn ddibynadwy; canlyniadau'n cael eu cofnodi mewn ffyrdd sy'n ddefnyddiol

### Egwyddorion arweiniol

- Polisïau ACA, marcio ac adborth ysgolion yn rhoi canllawiau clir ar gyflawni cysondeb wrth asesu.
- Asesiadau lle mae'r canlyniadau i gael eu cofnodi'n cael eu cynllunio, a'r sgil(iau) sydd i'w hasesu'n cael eu hadnabod yn glir.
- Asesiadau'r FfLlRh yn cael eu mapio ar draws y pynciau a'r wybodaeth hon ar gael i bob aelod o staff: pob athro/athrawes yn gwybod pa sgil(iau) mae ganddyn nhw gyfrifoldeb i'w hasesu, ac ar ba gam yn ystod y flwyddyn.
- Asesiadau'n cael eu cynllunio fel bod y gofynion yn dod yn fwyfwy cymhleth.
- Cytuno ar y ffordd y caiff gwybodaeth asesedig ei chofnodi.
- Athrawon yn gallu cael mynediad at wybodaeth asesiad llythrennedd a rhifedd er mwyn cynllunio a gwahaniaethu.
- Adborth i ddysgwyr yn cael ei ddarparu mewn ffyrdd sy'n cael eu cysylltu'n glir â disgwyliadau'r FfLlRh, ac yn nodi camau nesaf clir i ddysgwyr weithredu arnyn nhw.

**Ffigwr 2: Cyflawni dibynadwyedd ysgol gyfan**



### a. Polisïau ysgol gyfan

Mae'r ysgol wedi datblygu a chytuno ar bolisi asesu sy'n cynnwys canllawiau penodol ar gyfer asesu llythrennedd a rhifedd.

Gweler *Rhaglen Gefnogi Genedlaethol: Canllaw ar gyfer ysgolion* (Rhan 2a, tt.144–148) ar wefan Dysgu Cymru yn www.learning.wales.gov.uk/resources/nsp-guide/?skip=1&lang=cy

### b. Cymunedau dysgu proffesiynol (CDP) llythrennedd a rhifedd

Mae'r ysgol yn defnyddio dull cymunedau dysgu proffesiynol (CDP) er mwyn archwilio a gweithredu ymchwil ar strategaethau effeithiol ar y cyd i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau llythrennedd a rhifedd a nodwyd. Gall y CDP fod o fewn ac ar draws adrannau a neu ysgolion. Mae rhai enghreifftiau o CDP effeithiol gyda ffocws ar y canlynol:

- gwella llythrennedd bechgyn
- rheoli arian yng Nghyfnod Allweddol 2
- mynd i'r afael â chanfyddiadau negyddol merched o rifedd
- darparu cyfleoedd priodol i ddatblygu ysgrifennu dysgwyr mwy galluog a thalentog drwy ymarfer dosbarth effeithiol.

Mae canlyniadau CDP yn cael eu rhannu ac yn dylanwadu ar bolisi ac ymarfer ysgol gyfan.

Gweler 'Cymunedau dysgu proffesiynol' ar wefan Dysgu Cymru yn www.learning.wales.gov.uk/yourcareer/professional-learning-communities/?skip=1&lang=cy

### c. Hyfforddiant staff

Dylai ysgolion nodi anghenion datblygu staff mewn perthynas â llythrennedd a rhifedd, o ran datblygu eu sgiliau eu hunain a datblygu sgiliau dysgwyr. Dylai ysgolion ddarparu cyfleoedd ar gyfer datblygu mewn meysydd a nodwyd a monitro effaith gweithredu strategaethau o hyfforddiant a allai gynnwys:

- diwrnodau hyfforddiant ysgol gyfan
- cymryd rhan mewn CDP
- lledaenu canllawiau a dogfennau
- gweithio ysgol i ysgol
- partneriaethau cyfoed.

### ch. Safoni o fewn ac ar draws pynciau/adrannau/clystyrau

Dylai ysgolion sicrhau bod systemau yn eu lle i gefnogi athrawon i wneud asesiadau cywir a chyson o ran y FfLlRh. Dylai'r rhain ganiatáu i athrawon fod â dealltwriaeth a rennir o enghreifftiau o elfen/agwedd a darparu cyfleoedd i gadarnhau a chynnal eu dealltwriaeth.

### d. Cynhyrchu deunydd enghreifftiol a phortffolios o waith dysgwyr

Gall ysgolion ystyried casglu deunyddiau enghreifftiol a/neu bortffolios o waith rhai dysgwyr er mwyn cynorthwyo athrawon i wneud asesiadau cywir o ran y FfLlRh.

### dd. Strategaethau Asesu ar gyfer Dysgu ysgol gyfan wedi'u gwreiddio'n gyson

Caiff y cynnydd yn erbyn y FfLlRh ei gefnogi gan asesiad ysgol gyfan effeithiol ar gyfer polisi ac ymarfer dysgu. Gall hyn gynnwys:

- amcan dysgu FfLlRh a rennir â neu a grëir gan ddysgwyr a'i ddefnyddio i symud gwybodaeth a dealltwriaeth pwnc yn eu blaen
- y FfLlRh yn cael ei ddefnyddio i helpu'r dysgwr a'r athro/athrawes osod meini prawf llwyddiant sy'n dasg benodol
- hwyluso hunanasesu ac asesu cyfoedion yn erbyn meini prawf llwyddiant cytunedig fel bod dysgwyr yn dod yn gynyddol ymwybodol o'r modd mae cynnydd mewn sgiliau llythrennedd a rhifedd yn edrych
- datblygu holi i gynyddu sgiliau llythrennedd a rhifedd
- adborth i dysgwyr ynghylch cynnydd eu sgiliau llythrennedd a rhifedd sydd â ffocws, sy'n benodol ac sy'n hylaw, ac sy'n defnyddio iaith y FfLlRh
- cytuno ar y ffocws ar gyfer adborth ysgrifenedig
- dysgwyr yn cael cyfleoedd i fyfyrio a gweithredu ar adborth.

Gweler *Asesu ar gyfer dysgu a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd* ar wefan Dysgu Cymru yn www.learning.wales.gov.uk/resources/nlnf/?skip=1&lang=cy

## e. Tasgau, profion wedi'u safoni (Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol)

Gall ysgolion fod â threfniadau yn eu lle i athrawon gyrraedd dealltwriaeth gytunedig o safonau drwy ddatblygu tasgau sy'n defnyddio arbenigedd a barn ysgol gyfan y cydlynydd llythrennedd a'r cydlynydd rhifedd.

## f. Gweithgareddau monitro ysgol gyfan a ddefnyddir i hysbysu cynllunio gwelliant

Dylai'r ysgol werthuso effeithiolrwydd gweithrediad y FfLlRh drwy weithgareddau monitro priodol. Gall y rhain gynnwys:

- monitro a chraffu gwaith llythrennedd/rhifedd dysgwyr ar draws pwnc
- arsylwi ar wersi a theithiau cerdded dysgu
- monitro cynnydd sgiliau llythrennedd a rhifedd
- gwrando ar ddysgwyr, rhieni/gofalwyr a staff.

Er mwyn i ddysgwr wneud cynnydd, mae angen cynllunio gofalus i gynnwys cyfleoedd i atgyfnerthu a chymhwyso sgiliau mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Er enghraifft, efallai y gwneir y gweithgaredd yn fwy cymhleth drwy:

- gynyddu nifer y newidynnau y mae'n rhaid i'r dysgwr eu rheoli
- cynyddu lefel her y deunyddiau symbylu
- gwneud mwy o ofynion o ran y ffordd y mae canlyniadau yn gorfod cael eu cyflwyno
- rhoi deunydd anghyfarwydd i'r dysgwr
- lleihau'r lefel o arweiniad a chefnogaeth.

## 3. Gwybodaeth asesu, gan gynnwys canlyniadau mewn Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol ac asesiadau athrawon, yn cael ei hystyried i roi darlun cyffredinol o gyflawniad

### Egwyddorion arweiniol

- Dylai'r holl wybodaeth asesu berthnasol gael ei defnyddio i hysbysu darlun cyffredinol o gyflawniad y dysgwr.
- Dylai gwybodaeth asesu berthnasol ynglŷn â chyflawniad llythrennedd a rhifedd fod yn hygyrch i staff ar gyfer cynllunio ac asesu.
- Dylai gwybodaeth ddiagnostig o'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol gael ei defnyddio'n ffurfiannol ar lefel dysgwr, grŵp a'r ysgol.
- Gall data crynodol hefyd gael ei ddefnyddio'n ffurfiannol.

**Rhoi egwyddorion ar waith**

Dylai ystod eang o wybodaeth asesu berthnasol gael ei defnyddio i hysbysu darlun cyffredinol o gyflawniad dysgwr mewn llythrennedd a rhifedd. Gall ffynonellau gynnwys:

- gwybodaeth Asesu ar gyfer Dysgu a gynhyrchir yn y dosbarth o ddydd i ddydd yn erbyn sgiliau FfLlRh benodol, wedi ei chymhwyso mewn gwahanol bynciau
- coladu data perfformiad dysgwyr yn erbyn disgwyliadau'r FfLlRh ar draws ystod o bynciau sy'n proffilio caffael sgiliau dysgwyr mewn llythrennedd/rhifedd
- sgoriau safonedig a sgoriau cynnydd o'r Profion Rhifedd a Darllen Cenedlaethol
- gwneud asesiadau yn erbyn y rhannau perthnasol o'r cwricwlwm Cymraeg neu Saesneg a mathemateg
- cyrhaeddiad cam a chyfnod allweddol blaenorol.

Dylai'r darlun cyffredinol hwn fod yn hygyrch i bob aelod o staff ei ddefnyddio wrth gynllunio ar gyfer cyflenwi yn yr ystafell ddosbarth, gwneud asesiad gwybodus ynghylch a yw dysgwr wedi cyflawni'r disgwyliad penodol, a p'un a yw'n unol â chyrhaeddiad blaenorol. Bydd hefyd yn hwyluso trosglwyddo, atgyfnerthu a chynnydd sgiliau dysgwyr ar draws y cwricwlwm.

Asesu, cofnodi ac adrodd yn defnyddio'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol
Gorffennaf 2014
Dogfen ganllawiau rhif: 142/2014

## Model cofnodi posib ar gyfer defnydd mewnol

| Allwedd | |
|---|---|
| Coch | Nid yw'r dysgwr wedi cyflawni'r disgwyliad hwn eto. |
| Ambr | Mewn rhai achosion mae'r dysgwr wedi dangos ei fod wedi cyflawni'r disgwyliad hwn, ond nid yn gyson ac efallai y bydd angen cymorth. |
| Gwyrdd | Mae'r dysgwr wedi dangos ei fod wedi cyflawni ac atgyfnerthu'r disgwyliad hwn. |
| Glas | Mae'r dysgwr wedi cyflawni'r disgwyliad ac mae'n gweithio ar ddisgwyliad o grŵp blwyddyn uwch. |

| | | Tymor | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 |
| Llafaredd | Siarad | Coch | Coch | Ambr | Ambr | Ambr | Ambr |
| | Gwrando | Ambr | Gwyrdd | Gwyrdd | Gwyrdd | Gwyrdd | Gwyrdd |
| | Cydweithio a thrafod | Ambr | Ambr | Ambr | Ambr | Gwyrdd | Gwyrdd |
| Darllen | Strategaethau darllen | Gwyrdd | Gwyrdd | Gwyrdd | Glas | Glas | Glas |
| | Darllen a deall | Gwyrdd | Ambr | Gwyrdd | Gwyrdd | Gwyrdd | Gwyrdd |
| | Ymateb a dadansoddi | Ambr | Ambr | Ambr | Gwyrdd | Gwyrdd | Gwyrdd |
| Ysgrifennu | Ystyr, pwrpas, darllenwyr | Ambr | Ambr | Gwyrdd | Gwyrdd | Ambr | Gwyrdd |
| | Strwythur a threfn | Ambr | Ambr | Gwyrdd | Gwyrdd | Gwyrdd | Gwyrdd |
| | Iaith | Gwyrdd | Ambr | Gwyrdd | Gwyrdd | Ambr | Gwyrdd |
| | Llawysgrifen, gramadeg, atalnodi, sillafu | Gwyrdd | Gwyrdd | Glas | Glas | Gwyrdd | Glas |

## Asesiad ym mhob maes pwnc pob dysgwr yn defnyddio'r FfLlRh

Sail y model hwn yw neilltuo cyfrifoldebau am asesu agweddau penodol o'r FfLlRh i adrannau ar sail hanner tymor. Byddai gan yr holl adrannau fynediad i'r model cofnodi a byddent yn gallu ei ddiweddaru. Mae'r model hwn yn galluogi athrawon i gael cipolwg ar gynnydd dysgwr mewn sgil penodol i'w cynorthwyo i adnabod y camau nesaf.

Byddai athrawon yn defnyddio cyfarwyddyd mwy manwl (heb ei ddarparu) ar gyfer eu maes pwnc sy'n nodi a yw dysgwyr wedi ennill y sgiliau a ddisgrifir yn natganiadau disgwyliad y FfLlRh ac ar ba lefel. Byddai hyn yn cael ei wneud drwy gydol y flwyddyn ysgol fel bo'r dysgwyr yn arddangos, atgyfnerthu a datblygu sgiliau.

Bydd ysgolion yn defnyddio mapio cwricwlwm er mwyn cynllunio pa ddatganiad disgwyliadau y FfLlRh a gaiff ei gynnwys a'i ddatblygu ym mha faes pwnc, felly ni fydd yn angenrheidiol i bob pwnc ddarparu barn ar bob datganiad disgwyliad.

Asesu, cofnodi ac adrodd yn defnyddio'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol

Gorffennaf 2014

Dogfen ganllawiau rhif: 142/2014

Gall athrawon gyfarfod i gytuno ar ddyfarniad asesu ar gyfer pob elfen/agwedd o'r FfLlRh i bob dysgwr (gellir ymdrin â llythrennedd a rhifedd mewn gwahanol gyfarfodydd). Byddai hyn yn cynrychioli barn yr holl athrawon perthnasol am y disgwyliad a gyflawnwyd ar gyfer pob elfen/agwedd ar draws pynciau'r cwricwlwm.

Dewis amgen i hyn yw bod y cydlynydd llythrennedd/rhifedd yn coladu'r wybodaeth asesu o wahanol feysydd pwnc er mwyn cytuno ar ddyfarniad asesu ar gyfer pob agwedd o'r FfLlRh.

## 4. Cyflawniad yn erbyn y FfLlRh yn cael ei adrodd, ynghyd â chamau nesaf ar gyfer cynnydd

### Egwyddorion arweiniol

Dylai adroddiadau llythrennedd a rhifedd i ddysgwyr a rhieni/gofalwyr:

- ddefnyddio iaith y FfLlRh
- cymryd dull naratif yn hytrach na dyfarniad sengl p'un a yw dysgwr uwchlaw/ar/o dan y disgwyliad i'w grŵp blwyddyn
- rhoi sgil mewn cyd-destun
- disgrifio ac asesu cynnydd unigol i hysbysu trafodaeth am gyflawniad a'r camau nesaf:
  – gyda dysgwyr
  – gyda rhieni/gofalwyr
  – rhwng athrawon/ymarferwyr
- ystyried gwybodaeth diagnostig o'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol.

## Rhoi egwyddorion ar waith

Mae adroddiadau llythrennedd a rhifedd yn fecanwaith y gall ysgolion eu defnyddio i gynnwys dysgwyr a rhieni/gofalwyr mewn cefnogi cynnydd.

### Astudiaeth achos: ysgol gynradd

Mae un ysgol wedi ei chael yn ddefnyddiol cynnwys a hysbysu rhieni/gofalwyr ar bob cam dysgu eu plentyn mewn llythrennedd a rhifedd. Mae'r ysgol hon yn defnyddio cofnod cam nesaf a gedwir gan yr athro/athrawes a'r dysgwr sy'n galluogi'r rhiant/gofalwr i wneud sylw ar ddefnydd y dysgwr o sgil wrth ddarllen neu wneud gwaith cartref. Mae hyn wedi galluogi adrodd ar berfformiad y dysgwr ar bwynt yn y tymor neu'n flynyddol a deialog barhaus rhwng y cartref a'r ysgol.

Mae ysgol gynradd arall wedi disgrifio sut yr oedd rhieni/gofalwyr yn cael eu gweld i fod â rôl allweddol i'w chwarae wrth osod ac adolygu camau nesaf eu plant, ac roedd eu cynnwys yn fuan yn y broses yn gwneud yr adroddiad ysgol yn fwy ystyrlon.

Mae strategaethau eraill ar gyfer hysbysu ac ymgysylltu rhieni/gofalwyr wedi cynnwys:

- sesiynau gwybodaeth gyda rhieni/gofalwyr i esbonio diben y FfLlRh, y profion cenedlaethol a sgoriau safonedig
- ymgynghori â rhieni/gofalwyr i ganfod beth a fydden nhw'n ei chael yn ddefnyddiol wrth adrodd ar sgiliau llythrennedd a rhifedd
- rhaglen gynlluniedig o asesu dysgu ar draws pob cyfnod allweddol (manylion yn cael eu cyhoeddi o flaen llaw yn y calendr ysgol a'i rannu â rhieni/gofalwyr)
- cyfarfodydd rhieni/gofalwyr rheolaidd a diwrnodau gosod targedau
- galluogi rhieni/gofalwyr i helpu eu plant ddatblygu eu sgiliau llythrennedd a rhifedd drwy:
  - ddiwrnod gweithgareddau neu weithgareddau gyda'r nos ar gyfer llythrennedd a/neu rhifedd
  - sesiynau 'sut i helpu eich plentyn'
  - llyfrynnau yn rhoi manylion am linynnau penodol
  - enghreifftiau o ddulliau a gweithgareddau perthnasol
  - cyfeirio at wahanol adnoddau perthnasol, gan gynnwys aps, llyfrau, gwefannau.

Mae'r canllawiau canlynol wedi bod yn ddefnyddiol i rai ysgolion i gynhyrchu adroddiadau. Dylai adroddiadau:

- fyfyrio ar sut y mae'r dysgwr wedi datblygu sgiliau a beth yw ei gam nesaf
- cyfeirio at y pwynt perthnasol lle mae dysgwr yn gweithio ar hyn o bryd, hyd yn oed os nad yw hyn o fewn y disgwyliadau grŵp blwyddyn
- adrodd ar y sgiliau llythrennedd a rhifedd sydd wedi cael eu hasesu o fewn y pwnc
- cynnwys iaith y FfLlRh a'r cyd-destun sgil
- cyfeirio at y llinyn neu'r elfen
- dewis adrodd ar ddisgwyliadau sydd yn arbennig o berthnasol i ddysgwyr.

## Enghreifftiau o adroddiadau naratif

### Enghraifft y Cyfnod Sylfaen

Yn ei adroddiad ysgrifenedig o'n hymweliad â'r orsaf dân, dangosodd Ioan ei fod yn gallu defnyddio siarad i gynllunio ysgrifennu. Cynhwysodd lawer iawn o wybodaeth drwy wneud hyn, a thrwy nodi ei syniadau, roedd yn gallu datblygu gynnwys ei ysgrifennu ymhellach.

### Enghraifft Cyfnod Allweddol 2

Wrth gynllunio ymweliad ysgol i Landudno, gallai Leo ddweud faint o'r gloch oedd hi i'r pum munud agosaf ar gloc analog a chyfrifo faint o amser oedd hi tan yr awr nesaf. Bydd angen iddo ddweud faint o'r gloch yw hi i'r munud agosaf ar glociau analog er mwyn cynyddu ei gywirdeb.

### Enghraifft celf a dylunio Cyfnod Allweddol 3

Wrth gynllunio darn o ysgrifennu gwybodaeth estynedig ar Cezanne, gallai Aneurin strwythuro'r wybodaeth yn effeithiol i gynnal diddordeb y darllenydd. Er mwyn cynyddu diddordeb y darllenydd ymhellach, gallai sicrhau bod ei gyflwyniad yn cynnwys adrannau, ffotograffau a chapsiynau.

### Enghraifft hanes Cyfnod Allweddol 3

Wrth strwythuro cyflwyniad ar effaith yr Ail Ryfel Byd, dewisodd Mila edrych ar nifer y marwolaethau milwyr Prydeinig o'i gymharu â phoblogaeth y DU. Defnyddiodd ei sgiliau trin data i ddehongli gwybodaeth o ddiagramau a graffiau i wneud hyn. Er mwyn datblygu ei dealltwriaeth o'r effaith, dylai Mila ystyried cymharu'r data hwn â data o wledydd eraill.

Gweler Atodiad 1 am enghreifftiau pellach.

**Materion i'w hystyried**

### A yw bob pwnc yn cyfrannu at adrodd am berfformiad dysgwr yn erbyn gofynion y FfLlRh?

Wrth gyflwyno'r model posibl ar gyfer asesu perfformiad dysgwyr yn erbyn y FfLlRh, mae'r ddogfen ymgynghori ddiweddar ar y cynigion i ddiwygio'r cwricwlwm a threfniadau asesu yn pwysleisio'r angen am gydweithio traws-pwnc a thraws-adran.

Mae'r cynnig yn nodi y bydd ysgolion, wrth fapio'r cwricwlwm, wedi nodi meysydd pwnc penodol ar gyfer datblygu disgwyliadau'r FfLlRh; ac, felly, nad oes angen i bob pwnc ddarparu dyfarniad ar berfformiad yn erbyn pob datganiad disgwyliad.

### A ddylid cael adroddiadau pwnc unigol i bob dysgwr ar eu perfformiad FfLlRh neu a ddylai eu cyflawniadau/cyraeddiadau gael eu cyfuno i roi adroddiad llythrennedd unigol ac adroddiad rhifedd unigol ar gyfer pob dysgwr?

Mae cefnogaeth i'r ddau ddull.

Y manteision posibl o gynhyrchu adroddiad llythrennedd a rhifedd ar gyfer pob dysgwr yw fel a ganlyn.

- Trwy goladu tystiolaeth o ystod o bynciau mewn un ddogfen, mae adroddiadau o'r fath yn rhoi golwg gyffredinol gliriach, fwy cynhwysfawr a hylaw o lefelau cyflawniad, cryfderau a meysydd i'w datblygu.
- Mae trafodaeth traws-bynciol fel rhan o'r broses o gytuno ar farn gyffredinol yn cefnogi dibynadwyedd asesu.

- Mae'n galluogi trafodaeth ynghylch penderfyniad ar unrhyw anghysondebau a allai godi, e.e. anghysondeb o ran y gallu i gymhwyso sgiliau mewn llythrennedd/rhifedd mewn gwahanol bynciau.

Manteision posibl o gynhyrchu adroddiadau pwnc unigol ar lythrennedd a rhifedd i bob dysgwr yw fel a ganlyn.

- Gan ddefnyddio enghreifftiau penodol, gall adroddiadau roi manylion clir o'r cynnydd a'r camau nesaf y mae pob dysgwr wedi eu gwneud yn y pwnc hwnnw.
- Gellir adnabod yn haws y materion a'r pryderon sy'n ymwneud â chynnydd mewn maes pwnc penodol.
- Gellir cynllunio a mapio'r FfLlRh ar draws y cwricwlwm, gan alluogi adrodd ar draws ystod o elfennau/agweddau'r FfLlRh.

Pa bynnag ddull a ddewisir, mae gwerth yr adroddiad, i rieni/gofalwyr a dysgwyr, yn dibynnu ar athrawon yn derbyn cyfrifoldeb llawn am asesu llythrennedd a rhifedd yn gadarn ac yn gywir mewn unrhyw gyd-destun y maen nhw'n eu haddysgu.

### 5. Data yn cael ei ddefnyddio i olrhain cynnydd dysgwyr o fewn ac ar draws pynciau

#### Egwyddorion arweiniol

Pwrpas system olrhain neu gofnodi ysgol gyfan yw galluogi ysgolion i:

- fonitro ac olrhain cynnydd mewn llythrennedd a rhifedd ar draws gwahanol feysydd pwnc, blynyddoedd a chyfnodau allweddol
- adnabod pa ddysgwyr sydd angen cymorth ychwanegol neu her bellach
- nodi'n glir os yw dysgwr yn cael anhawster mewn pwnc penodol
- asesu cyflenwi'r FfLlRh a hysbysu cynllunio ar sail ysgol gyfan
- galluogi llywodraethwyr i herio safonau llythrennedd a rhifedd a chefnogi cynllunio ar gyfer gwelliant.


## Rhoi egwyddorion ar waith

### Astudiaeth achos: Ysgol Gynradd Mount Pleasant

Nodwyd y fantais o gael system i olrhain cynnydd dysgwyr unigol yn erbyn y FfLlRh ac roedden ni eisiau i'r system allu:

- olrhain carfan o'r Meithrin i Flwyddyn 6
- olrhain dysgwyr unigol
- darparu dadansoddiad o berfformiad yn ôl rhyw, prydau ysgol am ddim ac anghenion addysgol ychwanegol (AAY)
- rhoi dadansoddiad o berfformiad mewn llafaredd/darllen/ysgrifennu
- cymharu sgoriau prawf, asesiad diwedd blwyddyn athrawon, cyflawniad FfLlRh
- cynhyrchu adroddiadau ciplun
- rhoi enghreifftiau o sgiliau gan ddefnyddio gwaith dysgwyr
- cofnodi sylwadau am ddysgwyr
- bod yn hawdd i athrawon eu defnyddio.

Mae'r lluniau sgrin hyn yn dangos sut rydyn ni'n olrhain dysgwyr yn yr ysgol.



| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| FfLlRh Rhifedd – Blwyddyn 5 | | | | | | |
| *Blwyddyn Ysgol yn gorffen 2013-2014* | | | | | | |
| | | % sgiliau blwyddyn cynt a gyflawnwyd | 90% | 99% | 100% | 75% |
| | | % o dargedau cyfredol wedi'u cyflawni | 84% | 11% | 71% | 49% |
| | | Enw Disgybl | BOOTH Paul | THOMAS Linda | PENN Nick | HART Kev |
| | | Rhyw | g | b | g | g |
| Gwybodaeth gynllunio Rhif a % yn cyflawni'r sgil | | Adnabod prosesau a chysylltiadau | | | | |
| 20 | 67% | Trosglwyddo sgiliau mathemategol i amrywiaeth o gyd-destunau a sefyllfaoedd | a | d | a | a |
| 18 | 60% | Adnabod y camau a'r wybodaeth briodol sydd eu hangen er mwyn cwblhau'r dasg neu gyrraedd datrysiad | a | a | a | d |
| 19 | 63% | Dewis mathemateg a thechnegau priodol i'w defnyddio | a | a | d | a |
| 14 | 47% | Dewis a defnyddio offer ac unedau mesur addas | d | d | a | a |
| 21 | 70% | Dewis strategaeth feddwl neu ysgrifenedig briodol a gwybod pryd mae'n briodol defnyddio cyfrifiannell | a | a | a | a |
| 23 | 77% | Amcangyfrif a delweddu main wrth fesur a defnyddio unedau cywir | a | a | a | a |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bl2 | 0% | 0% | 20% | 80% | 0% | 0% | 0% | 100% |
| Bl3 | 0% | 0% | 20% | 80% | 0% | 0% | 0% | 100% |
| Bl4 | 0% | 20% | 0% | 80% | 0% | 0% | 0% | 100% |
| Bl5 | 20% | 20% | 60% | 0% | 0% | 0% | 50% | 50% |
| Bl6 | 100% | 0% | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% | 0% |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bl2 | 0% | 0% | 20% | 80% | 0% | 0% | 0% | 100% |
| Bl3 | 0% | 0% | 40% | 60% | 0% | 0% | 0% | 100% |
| Bl4 | 0% | 0% | 20% | 80% | 0% | 0% | 0% | 100% |
| Bl5 | 0% | 100% | 0% | 0% | 0% | 50% | 50% | 0% |
| Bl6 | 100% | 0% | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% | 0% |

| Ene | Rhyw | CAD | ADY | % Cwblhau Blynyddol, Canlyniadau'r Profion ac Asesiad Athro Diwedd Blwyddyn - Rhifedd | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Meith % | Derb % | AA DB | Bl1% | AA DB | Bl2% | Bl2 Gwe | Bl2 Ymre | AA DB | Y3% | Bl3 Gwe | Bl3 Ymre | AA DB | Bl4% | Bl4 Gwe | Bl4 Ymre | AA DB | Bl5% |
| Linda | b | ia | | 85 | 100 | 2 | 100 | 4 | 94 | 130 | 129 | 6 | 100 | 132 | 129 | 3a | 93 | 134 | 130 | 4b | 91 |
| Paul | g | | | 100 | 100 | 3 | 91 | 4 | 100 | 123 | 120 | 6 | 98 | 125 | 120 | 3b | 96 | 100 | 100 | 3a | 64 |
| Anna | b | | | 100 | 100 | 2 | 100 | 4 | 100 | 110 | 105 | 5 | 98 | 120 | 109 | 3b | 98 | 107 | 107 | 3a | 50 |
| John | g | ia | ia | 96 | 100 | 1 | 72 | 3 | 88 | 109 | 101 | 5 | 80 | 102 | 100 | 3c | 36 | 97 | 97 | 3c | 7 |
| Dan | g | | | 96 | 100 | 2 | 100 | 4 | 100 | 129 | 100 | 6 | 98 | 131 | 128 | 3a | 98 | 126 | 126 | 4c | 52 |
| Ben | g | | ia | 100 | 100 | 1 | 72 | 3 | 67 | 92 | 89 | 4 | 61 | 95 | 78 | 2a | 82 | 104 | 104 | 3b | 39 |
| Nick | g | | | 100 | 100 | 3 | 100 | 4 | 100 | 115 | 102 | 5 | 100 | 117 | 102 | 3b | 100 | 100 | 100 | 3a | 57 |

**Pwnc a Blwyddyn** – Mae cwymplen yn galluogi dethol 'Llythrennedd' neu 'Rhifedd' a grŵp blwyddyn o'r Meithrin i Flwyddyn 6 ar gyfer carfan benodol.
**% a gyflawnwyd yn y flwyddyn flaenorol** – Mae hyn yn cyfeirio at y ganran o ddatganiadau'r FfLlRh a gyflawnwyd gan y dysgwyr yn yr achos hwn ym Mlwyddyn 4.
**% o dargedau cyfredol a gyflawnwyd** – Mae hyn yn cyfeirio at y ganran o ddatganiadau FfLlRh a gyflawnwyd hyd yn hyn eleni ym Mlwyddyn 5.
**Elfen y FfLlRh** – O dan bob un o elfennau'r FfLlRh nodir y datganiadau disgwyliad llythrennedd/rhifedd ar gyfer pob grŵp blwyddyn.

Bu gallu cofnodi'r holl ddata perthnasol mewn un lle yn ofyniad cychwynnol dynodedig i'r traciwr ac mae'r tablau syml hyn yn galluogi cwrdd â'r gofyniad hwnnw. Maen nhw hefyd yn galluogi cymharu gwahanol ddata. Yn Ysgol Gynradd Mount Pleasant, mae cymhariaeth o asesiadau athrawon blaenorol, sgoriau profion a chynnydd presennol drwy'r FfLlRh wedi arwain at ddarganfod bod yn aliniad bron yn berffaith rhwng y tri pheth. Mae'r dysgwyr mwy galluog a thalentog yn amlwg, fel y mae'r llai abl. Mae'r ysgol yn gweld y darganfyddiad hwn yn gysur yn hytrach na syndod, ond mae hefyd yn cydnabod y potensial sy'n deillio o ganlyniadau nad ydyn nhw'n alinio. Bydden nhw'n sbarduno ymchwiliad i bam fod y canlyniadau'n wahanol, a gallai hyn fod yn ddefnyddiol o ran llywio cynllunio yn y dyfodol.

**Gwybodaeth gynllunio**

**Rhifedd a'r ganran o ddysgwyr sy'n cwrdd â'r sgiliau** – Mae'r golofn gyntaf yn nodi faint o ddysgwyr mewn grŵp blwyddyn sy'n cyflawni unrhyw ddatganiad ddisgwyliad penodol tra bod yr ail golofn yn rhoi'r un wybodaeth fel canran. Os yw un rhif yn isel, yna mae'n helpu llywio cynllunio bod angen mwy o gyfleoedd o ansawdd i ymarfer y sgiliau dan sylw. Mae canrannau is na 50% yn achosi i'r gell gael eu hamlygu'n binc.

Mae colofnau dysgwyr unigol i'r dde o'r datganiadau disgwyliad yn cael eu defnyddio ar gyfer cofnodi asesiadau. Rhoddir y llythyren 'a' mewn cell pan fo athro/athrawes yn barnu bod dysgwr wedi cyflawni'r datganiad disgwyliadau. Mae hyn yn achosi i'r gell droi'n wyrdd. Rhoddir y llythyren 'd' ar gyfer 'datblygu' mewn cell pan fo athro/athrawes yn barnu bod dysgwr yn gweithio ar ddatganiad disgwyliadau penodol. Mae hyn yn achosi i'r gell droi'n felyn. Os nad oes unrhyw asesiad wedi cael ei wneud, yna mae'r gell yn ymddangos yn binc golau.

Mae'n bwysig nodi yma bod prosesau asesu cadarn a chyson yn cael eu gweithredu cyn cyrraedd unrhyw ddyfarniad. Dim ond i gofnodi'r dyfarniad y defnyddir y traciwr.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y traciwr gan bartneriaid RhGG.

Arddangoswyd y model olrhain hwn yn ddiweddar yng ngweithdai adrodd ac olrhain y RhGG. Mae fideo o'r digwyddiad ar gael ar wefan Dysgu Cymru.

Ceir enghreifftiau pellach o olrhain yn Atodiad 2.

# Atodiad 1: Enghreifftiau o sylwadau naratif

## Adroddiad pwnc unigol ar gyfer pob dysgwr

### Nia

Wrth ymchwilio i'r gwahaniaethau rhwng pleidiau gwleidyddol, roedd Nia yn gallu defnyddio chwiliadau ar y rhyngrwyd yn ofalus er mwyn cynhyrchu taflen wybodaeth. Er mwyn gwella ansawdd yr wybodaeth, dylai defnyddio strategaethau i asesu ansawdd a dibynadwyedd gwybodaeth ar dudalennau gwe, gan ystyried ei tharddiad a gwiri cywirdeb.

### Iolo

Yn ystod ein hastudiaeth ar imiwneiddio, roedd Iolo yn gallu darllen a deall dau destun na welodd o'r blaen yn annibynnol a dewis tystiolaeth i gefnogi ei ddealltwriaeth o'r ddau. Er mwyn gwella ei ddealltwriaeth darllen ymhellach, dylai chwilio am wybodaeth a thystiolaeth ychwanegol o wahanol ffynonellau.

### Rhodri

Wrth wrando ar bodlediad *Material World* y BBC am y daeargryn yn Iran, roedd Rhodri yn gallu adnabod y digwyddiadau'n gronolegol. Er mwyn iddo allu dangos ei fod wedi meddwl am oblygiadau'r hyn a glywodd, gallai gyfansoddi cwestiynau perthnasol i'w trafod ymhellach.

### Cerys

Yn ystod y drafodaeth grŵp ar lafur plant yn y Chwyldro Diwydiannol, roedd Cerys yn gallu dilyn y pwyntiau a wnaed yn y drafodaeth, a rhoi rhesymau am ei chytundeb a'i hanghytundeb. Er mwyn gwella ymhellach ei sgiliau fel cadeirydd trafodaeth, dylai geisio arwain y grŵp i gonsensws.

### Cadi

Yn adolygiad ysgrifenedig Cadi o *Tan ar y Comin*, roedd yn gallu paragraffu'n briodol. Er mwyn creu gwaith ysgrifennu rhesymegol, dylai wneud cysylltiadau o fewn a rhwng paragraffau, gan ddefnyddio cysyllteiriau.

### Twm

Mewn darn trafodol o ysgrifennu estynedig ar boblogrwydd cymharol rygbi a phêl-droed, roedd Twm yn gallu cyfleu syniadau drwy iaith amhersonol. Er mwyn dangos gwrthrychedd pellach, gallai ddefnyddio'r trydydd person.

### Vicky

Yn ei hysgrifennu naratif diweddar, roedd Vicky yn gallu ysgrifennu gyda chywirdeb gramadegol. Roedd yn gallu amrywio ei strwythurau brawddegau i greu cyflymder a thensiwn. Er mwyn datblygu ei naratif, dylai Vicky gynllunio strwythur ei stori a dilyn pedwar cam y plot fel y gall ysgrifennu storïau mwy cydlynol a rhugl.

### Matt

Yn ei dasg darllen craidd ar daflenni perswadiol, dangosodd Matt ei fod yn gallu defnyddio strategaethau megis cip-ddarllen (sgimio) ac anodi er mwyn dod o hyd i ddarnau allweddol o wybodaeth. Mae'n gallu defnyddio sgiliau dod i gasgliad er mwyn edrych ar is-destun ac yn gallu crynhoi er mwyn cynnig trosolwg o'r testun. Er mwyn dangos cynnydd, mae'n rhaid i Matt ddatblygu ei anodi fel ei fod yn canolbwyntio ar eiriau allweddol a fydd yn caniatáu iddo ddatblygu ei bwyntiau'n briodol. Rhaid iddo hefyd ddefnyddio termau technegol ychydig yn amlach yn ei ysgrifennu fel ei fod yn dod yn fwy penodol.

### Marc

Yn ei ddarn o ysgrifennu ar achosion y Rhyfel Byd Cyntaf, dangosodd Marc ei fod yn gallu rhoi pwysau ar dystiolaeth a ffynonellau, a defnyddio sgiliau crynodeb a thrafodaeth i gyflwyno dadleuon, a oedd yn gwneud ei waith yn fwy gwrthrychol. Er mwyn datblygu ei sgiliau mewn trafodaeth, dylai Marc geisio rhagweld barn pobl eraill ychydig yn fwy, fel y gall lunio ei ddadleuon mewn modd addas.

### Elbie

Wrth chwarae rôl yn ddiweddar, dangosodd Elbie ei sgiliau rheoli arian trwy ddefnyddio gwahanol gyfuniadau o ddarnau arian er mwyn talu am siopa hyd at werth o £2. Mewn rôl fel 'siopwr', roedd yn gallu gweithio allan y swm o newid o £2 i roi i'r cwsmer. Er mwyn iddo allu talu am eitemau hyd at werth o £10 a chyfrifo'r newid, dylai Elbie weithio gyda symiau mwy o arian.

### Chris

Wrth ysgrifennu gweithgaredd helfa drysor, defnyddiodd Chris ei sgiliau mesur a phedwar pwynt cwmpawd i ddisgrifio'r cyfarwyddiadau i berson allu cwblhau'r llwybr. Er mwyn cynyddu cywirdeb y cyfeiriad, dylai Chris ddefnyddio wyth pwynt y cwmpawd.

### Ruby

Wrth weithio allan p'un a oedd dalen o MDF yr oedd ei hangen i wneud câs pensil yn ddigon mawr, roedd Ruby yn gallu amcangyfrif a delweddu maint. Er mwyn sicrhau mai dim ond ychydig iawn o wastraff sydd wrth dorri, dylai Ruby ddewis, treialu a gwerthuso amrywiaeth o gynlluniau torri.

## Adroddiad llythrennedd unigol ac adroddiad rhifedd unigol i bob dysgwr

### Llythrennedd

Mae Elise yn gallu ysgrifennu adroddiad cynhwysfawr ar bwnc ac mewn gwyddoniaeth a dylunio a thechnoleg, mae hi'n gallu cyflwyno gwybodaeth a phrosesau'n glir. Mae cyflwyno syniadau ac ysgrifennu am oblygiadau a chanlyniadau digwyddiadau hanesyddol yn fwy heriol i Elise. Me hi angen datblygu'r agweddau hyn o lythrennedd.

Mewn gwaith darllen, mae gan Elise ddealltwriaeth glir o farnau gwahanol ar yr un pwnc ac mae'n gallu adnabod y gwrthddweud rhwng y barnau hynny. Mae hi wedi gwneud hyn yn y gwaith ar gynhesu byd eang mewn daearyddiaeth. Mae hi angen sicrhau cymhwyso'r sgiliau darllen hyn i bynciau eraill megis hanes lle mae defnyddio a deall ffynonellau gwybodaeth yn allweddol bwysig. Byddai adnabod gwahanol ddehongliadau o ffeithiau hefyd yn cryfhau ei gwaith.

Mae Elise wedi arddangos gallu sylweddol yn ei sgiliau llafar ar draws y cwricwlwm, yn arbennig yn ei gallu i ymateb i farnau eraill yn briodol. Mae Elise wedi gallu trafod barnau gwahanol fel, er enghraifft, yn ei gwaith dawns ar y cyd mewn addysg gorfforol lle roedd hi'n adnabod cyfraniad pob aelod o'r grŵp a thrafod ei berfformiad yn llwyddiannus. Gall Elise ddatblygu ei gallu i wrando ac ymateb ymhellach trwy arbrofi gyda syniadau eraill mewn cyd-destunau gwahanol a thrafod y canlyniadau fel aelod o grŵp.

## Rhifedd

Mae gan Roland ddealltwriaeth glir o sut i ddehongli diagramau a graffiau mewn ystod o bynciau ac mae wedi dechrau defnyddio cymedrau, canolrifau, moddau ac ystod i gymharu dau ddosbarthiad mewn gwaith ar fudo mewn daearyddiaeth. Y cam nesaf i Roland fydd archwilio canlyniadau'n feirniadol a dewis a chyfiawnhau ei ddewis o ystadegau a'u heffeithiau posibl ar ei gasgliadau. Mae Roland yn hyderus wrth lunio ystod eang o graffiau a diagramau i gynrychioli data annibynnol a pharhaus, er ei fod angen dysgu sut i ddewis graddfa briodol ar gyfer pob graff. I wneud cynnydd, mae angen i Roland feistroli diagramau gwasgaredig a gallu eu defnyddio i archwilio'r cydberthynas rhwng dau newidyn. Caiff gyfle pellach i wneud hyn mewn gwyddoniaeth y flwyddyn nesaf.

Mae Roland yn dechrau dangos ei fod yn gallu cymhwyso sgiliau mathemategol ar draws y cwricwlwm mewn amrywiaeth o gyd-destunau a sefyllfaoedd pob dydd. Mae ei brosiect addysg bersonol a chymdeithasol am Sialens yr Entrepreneur Ifanc yn dangos dawn arbennig i ddewis, treialu a gwerthuso dulliau posibl. Er mwyn datblygu ei sgiliau ymresymu rhifyddol, dylai Roland ganolbwyntio ar fireinio ei ddulliau cyfrifo yn unol â'r hyn sydd wedi bod yn ofynnol yn ei dasg datblygu cynnyrch mewn dylunio a thechnoleg.

Asesu, cofnodi ac adrodd yn defnyddio'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol

Gorffennaf 2014

Dogfen ganllawiau rhif: 142/2014

# Atodiad 2: Cynllunio'r cwricwlwm i olrhain – enghraifft ar gyfer ysgolion uwchradd

Mae'r gyfres ganlynol o luniau sgrin yn dangos y daith posib i ysgol uwchradd drwy brosesau:

- cyfleoedd mapio i ymarfer sgiliau rhifedd ar draws y cwricwlwm
- adnabod cyfleoedd asesu
- olrhain cynnydd dysgwyr unigol.

Mae'r daith yn dechrau gyda dyraniad arbenigwr rhifedd i bob pwnc i'w helpu gyda'r gwaith o nodi cyfleoedd rhifedd sy'n digwydd yn naturiol o fewn eu cwricwlwm.

Y pwrpas gwreiddiol oedd sicrhau bod y cyfleoedd a gynigwyd ar lefel briodol i bob grŵp blwyddyn. Yna, rhoddwyd ystyriaeth i wahaniaethu tasgau yn ôl anghenion gwahanol grwpiau o ddysgwyr. Er mwyn sicrhau bod y tasgau yn ddigon heriol i'r dysgwyr drwy gydol y flwyddyn, ystyriwyd hefyd y cynnydd o fewn llinynnau sgiliau.

Mae'r llun sgrin isod yn dangos y cyfleoedd rhifedd a gynigir gan yr Adran Addysg Gorfforol yn Ysgol y Moelwyn, Blaenau Ffestiniog i ddysgwyr Blwyddyn 7.

## Llun sgrin 1

| Mapio Rhifedd Blwyddyn 7 – Addysg Gorfforol | | | |
|---|---|---|---|
| **Datganiadau Disgwyliadau'r FfLlRh** | **Tymor 1** | **Tymor 2** | **Tymor 3** |
| **DEFNYDDIO SGILIAU MESUR**<br>**7M1** - darllen a dehongli graddfeydd ar amrywiaeth o offer mesur<br>**7M3** - trosi rhwng unedau'r sustem fetrig a gwneud cyfrifiadau<br>**8M3a** - defnyddio cywerthoedd metrig bras ar gyfer unedau imperial a ddefnyddir bob dydd. | Digwydd yn gyson drwy'r flwyddyn. | Digwydd yn gyson drwy'r flwyddyn.<br>**Iechyd a Ffitrwydd**<br>Ystafell Ffitrwydd<br>Trosi unedau, edrych ar y peiriant rheged, e.e. sawl metr gallwch redeg mewn 2 funud, beth yw hyn mewn km?<br>Amcangyfrif pellter y dylid rhedeg mewn 10 munud wrth gadw'r cyflymdra yn gyson | Digwydd yn gyson drwy'r flwyddyn.<br>**Athletau**<br>Cofnodi pellter tafliadau, yn gywir, i un lle degol. Disgyblion hefyd i fesur hyd naid yn gywir. Deall a defnyddio cywerthoedd metrig bras o unedau imperial e.e. trosi modfeddi a throedfeddi i fetrau a centimetrau. |
| **AMSER:**<br>**7M5** - mesur a chofnodi amser i'r canfed eiliad agosaf | **TRAWSGWLAD**<br>Disgyblion yn rhedeg cwrs trawsgwlad ac yn cofnodi eu amser yn wythnosol.<br>Ar lafar, nodi beth yw pellter y cwrs trawsgwlad, beth yw hyn mewn km, metrau neu milltiroedd? | | **ATHLETAU: amseru gyda oriawr yn fanwl gywir mewn grwpiau a parau.**<br>Yn digwydd yn gyson.<br>Disgyblion yn gweithio mewn parau yn defnyddio oriawr i amseru pam mor gyflyn y gallent redeg 50m. Pob disgybl i redeg y 50M dair gwaith. Cymharu eu canlyniadau a nodi 'r amser cyflymaf. |
| **CASGLU DATA:**<br>**7D2** – casglu eu data eu | | **Iechyd a Ffitrwydd**<br>Gofynnir i ddisgyblion gynnal | |

Mae ail lun sgrin isod yn dangos dogfen olrhain dysgwyr unigol a ddefnyddir i gofnodi dyfarniadau asesu'r athro/athrawes addysg gorfforol yn seiliedig ar y cyfleoedd a adnabuwyd. Mae angen i ysgolion fod yn glir ynghylch pryd fydd dysgwyr yn cael eu hasesu a sut mae'r asesiad yn cael ei gofnodi.

Roedd yn hawdd cynhyrchu'r ffurflen trwy ddefnyddio offeryn amlbwrpas y RhGG a gellir ei defnyddio'n electronig neu ei hargraffu a'i gosod yn llyfr marciau'r athro/athrawes.

## Llun sgrin 2

| | ADDYSG GORFFOROL<br>TAFLEN OLRHAIN SGILIAU RHIFEDD DISGYBLION BI7 | ENW DISGYBL | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **MESUR** | | | | | | | | |
| | **HYD, PWYSAU / MÀS, CYNHWYSEDD** | | | | | | | | |
| 7M1 | darllen a dehongli graddfeydd ar amrywiaeth o offer mesur | | | | | | | | |
| 7M3 | Trosi rhwng unedau'r sustem fetrig a gwneud cyfrifiadau | | | | | | | | |
| | **AMSER** | | | | | | | | |
| 7M5 | mesur a chofnodi amser i'r canfed eiliad agosaf | | | | | | | | |
| | **TYMHEREDD** | | | | | | | | |
| 7M8 | Cofnodi'r tymheredd mewn graddfeydd tymheredd priodol | | | | | | | | |
| | **TRIN DATA** | | | | | | | | |
| | **CASGLU A CHOFNODI DATA** | | | | | | | | |
| 7D2 | Casglu eu data eu hunain ar gyfer arolwg syml e.e. drwy lunio holiadur | | | | | | | | |
| | **CYFLWYNO A DADANSODDI DATA** | | | | | | | | |
| 7D3 | Dehongli diagramau a graffiau (gan gynnwys siartiau cylch) | | | | | | | | |
| 7D3a | Defnyddio cymedr, canolrif, modd ac amrediad i gymharu dau ddosraniad (data arwahanol) | | | | | | | | |
| | **CYFLWYNO GRAFFIAU A'U DEHONGLI** | | | | | | | | |
| 7D4 | Llunio tablau amlder ar gyfer setiau data, wedi'u rhannu'n grwpiau lle bo'n briodol, mewn cyfyngiadau dosbarth cyfartal (rhoddir y grwpiau i'r dysgwyr) | | | | | | | | |
| 7D4a | Llunio ystod eang o graffiau a diagramau i gyflwyno'r data ac i adlewyrchu pwysigrwydd graddfa | | | | | | | | |

Yn llun sgrin 3 rydyn ni'n gweld darn o ddogfen mapio rhifedd cyffredinol Blwyddyn 7 Ysgol y Moelwyn sy'n coladu cyfleoedd rhifedd a gynigir gan adrannau ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn galluogi'r ysgol i gael cipolwg ar ble mae'r bylchau yn y ddarpariaeth, ac i ba elfennau mae'n rhaid rhoi'r rhan fwyaf o sylw. Mae'r enghraifft a roddir yn dangos y llinyn trin data a gynhwyswyd ym Mlwyddyn 7. Mae'r ysgol yn awr yn y broses o sicrhau cysondeb yn y ffordd y mae pynciau data'n cael eu dysgu a'r disgwyliadau asesu.

## Llun sgrin 3

| CÔD | TROSOLWG O WEITHGAREDDAU RHIFEDD TRAWSGWRICWLAIDD BLWYDDYN 7 | CYMRAEG | SAESNEG | FFRANGEG | GWYDDONIAETH | DAEARYDDIAETH | HANES | ADDYSG GREFYDDOL | DYLUNIO A THECHNOLEG | TECHNOLEG GWYBODAETH | ADDYSG GORFFOROL | CELF A DYLUNIO | CERDDORIAETH | DIM CYFLEOEDD TRAWSGWRICWLAIDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **DEFNYDDIO SGILIAU DATA** | | | | | | | | | | | | | |
| | **CASGLU DATA, HOLIADURON, ayyb** | | | | | | | | | | | | | |
| **7D2** | Casglu eu data eu hunain ar gyfer arolwg syml e.e. drwy lunio holiadur | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| | **CYFLWYNO A DADANSODDI DATA** | | | | | | | | | | | | | |
| **7D3** | Dehongli diagramau a graffiau (gan gynnwys siartiau cylch) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| **7D3a** | Defnyddio cymedr, canolrif, modd ac amrediad i gymharu dau ddosraniad (data arwahanol) | | | | ✓ | ✓ | | | ✓ | | ✓ | | | |
| | **CYFLWYNO GRAFFIAU A'U DEHONGLI** | | | | | | | | | | | | | |
| **7D4** | Llunio tablau amlder ar gyfer setiau data, wedi'u rhannu'n grwpiau lle bo'n briodol, mewn cyfyngiadau dosbarth cyfartal (rhoddir y grwpiau i'r dysgwyr) | | ✓ | | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| **7D4a** | Llunio ystod eang o graffiau a diagramau i gyflwyno'r data ac i adlewyrchu pwysigrwydd graddfa | ✓ | | ✓ | | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |

Bydd y rhaglenni astudio arfaethedig ar gyfer Saesneg a mathemateg, sy'n nodi'r sgiliau penodol i gael eu haddysgu ym mhob blwyddyn, yn ddefnyddiol i athrawon wrth gynllunio'r ddarpariaeth Saesneg a mathemateg. Wrth fapio, bydd ysgol yn dymuno nodi ym mha hanner tymor y bydd y sgil yn cael ei addysgu gyntaf a ble, gan y bydd hyn yn helpu adrannau eraill gyda chynllunio eu cynnwys llythrennedd a rhifedd.

Dengys llun sgrin pedwar fersiwn syml o ddogfen olrhain Excel sy'n coladu'r dyfarniadau asesu ynghylch p'un a yw sgiliau wedi cael eu cyflawni gan adrannau dethol ar draws yr ysgol. Gellid cynnwys pob adran yn y ddogfen a choladu'r data yn dymhorol (dyma enghraifft am y tymor cyntaf).

## Llun sgrin 4

| FILTER BLWYDDYN | FILTER ADRAN | Gwyddoniaeth | Daearyddiaeth | TG | Dylunio a Thechnoleg | Addysg gorfforol | | Asesiadau ar gyfer un tymor wedi eu coladu | Enw disgybl 1 | | | Cyfartaledd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | **DEFNYDDIO SGILIAU DATA** | | | | |
| **m** | **m** | **m** | **m** | **m** | **m** | **m** | | **CASGLU A CHOFNODI DATA** | | | | |
| **7** | | **Y** | **Y** | **Y** | | | **7D2** | Casglu eu data eu hunain ar gyfer arolwg syml, e.e. drwy lunio holiadur | 3 | 3 | 3 | **3** |
| **m** | **m** | **m** | **m** | **m** | **m** | **m** | | **CYFLWYNO A DADANSODDI DATA** | | | | |
| **7** | | **Y** | **Y** | **Y** | | | **7D3** | Dehongli diagramau a graffiau (gan gynnwys siartiau cylch) | 2 | 2 | 2 | **2** |
| **7** | | **Y** | **Y** | **Y** | | | **7D3a** | Defnyddio cymedr, canolrif, modd ac amrediad i gymharu dau ddosraniad (data arwahanol) | 2 | 2 | 2 | **2** |
| **m** | **m** | **m** | **m** | **m** | **m** | **m** | | **CYFLWYNO GRAFFIAU A'U DEHONGLI** | | | | |
| **7** | | **Y** | | | | | **7D4** | Llunio tablau amlder ar gyfer setiau data, wedi'u rhannu'n grwpiau lle bo'n briodol, mewn cyfyngiadau dosbarth cyfartal (rhoddir y grwpiau i'r dysgwyr) | 2 | | | **2** |
| **7** | | | **Y** | | | | **7D4a** | Llunio ystod eang o graffiau a diagramau i gyflwyno'r data ac i adlewyrchu pwysigrwydd graddfa | 2 | | | **2** |

Mae llun sgrin 5 ar gyfer yr ail dymor.

## Llun sgrin 5

| FILTER ADRAN | Gwyddoniaeth | Daearyddiaeth | TG | Dylunio a thechnoleg | Addysg gorfforol | | **Asesiadau ar gyfer tymor 2 wedi eu coladu**<br>*** Data tymor 1 wedi ei goladu**<br>**** Cyfrifo'r cyfartaledd gan gynnwys data tymor 1 wedi ei goladu** | Enw disgybl 1 | | | | Cyfartaledd | Enw disgybl 2 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | **DEFNYDDIO SGILIAU DATA** | * | | | | ** | | |
| **m** | **m** | **m** | **m** | **m** | **m** | | **CASGLU A CHOFNODI DATA** | | | | | | | |
| | **Y** | **Y** | **Y** | | | **7D2** | Casglu eu data eu hunain ar gyfer arolwg syml, e.e. drwy lunio holiadur | **3** | | | | **3** | | |
| **m** | **m** | **m** | **m** | **m** | **m** | | **CYFLWYNO A DADANSODDI DATA** | | | | | | | |
| | **Y** | **Y** | **Y** | | | **7D3** | Dehongli diagramau a graffiau (gan gynnwys siartiau cylch) | **2** | | | | **2** | | |
| | **Y** | **Y** | **Y** | | | **7D3a** | Defnyddio cymedr, canolrif, modd ac amrediad i gymharu dau ddosraniad (data arwahanol) | **2** | | | | **2** | | |
| **m** | **m** | **m** | **m** | **m** | **m** | | **CYFLWYNO GRAFFIAU A'U DEHONGLI** | | | | | | | |
| | **Y** | | | | | **7D4** | Llunio tablau amlder ar gyfer setiau data, wedi'u rhannu'n grwpiau lle bo'n briodol, mewn cyfyngiadau dosbarth cyfartal (rhoddir y grwpiau i'r dysgwyr) | **2** | | | | **2** | | |
| | | **Y** | | | | **7D4a** | Llunio ystod eang o graffiau a diagramau i gyflwyno'r data ac i adlewyrchu pwysigrwydd graddfa | **2** | | | | **2** | | |

Yn ganolog i'r ddogfen hon, ceir rhestr o'r holl ddatganiadau disgwyliad rhifedd ar gyfer grŵp blwyddyn penodol neu grwpiau blwyddyn penodol.

Ar yr ochr dde o'r datganiadau disgwyliad rhifedd mae colofnau ar gyfer pob pwnc. Mae gosod 'Y' nesaf at ddatganiadau disgwyliad y bydd adran benodol yn adrodd arnyn nhw a chychwyn hidlo ar gyfer y golofn yn addasu'r ffurflen fel ei bod yn dangos dim ond y datganiadau disgwyliad hynny. Mae hyn yn gwneud y broses o fewnbynnu gwybodaeth yn haws o lawer i bob adran. Unwaith y bydd adran wedi cwblhau mewnbynnu eu data, yna bydd cael gwared â'r hidlydd yn adfer y ddogfen gyfan. Yna bydd y nifer o 'Y' ar ochr chwith y ddogfen yn rhoi trosolwg o'r datganiadau disgwyliad a aseswyd.

I'r chwith o'r datganiadau disgwyliad rhifedd, mae colofnau lle gellir cofnodi dyfarniadau ynghylch cyflawniad dysgwyr. Dylid nodi bod angen prosesau Asesu ar gyfer Dysgu ac Asesu o Ddysgu cadarn a chyson i ategu'r dyfarniadau hyn. Yn yr enghraifft uchod, gall tri dyfarniad gan dair adran wahanol gael eu cofnodi ar gyfer pob dysgwr. Gall nifer y colofnau hyn gael eu cynyddu neu eu lleihau yn ôl y gofyn.

Dyma'r system raddio a ddefnyddir yn yr enghraifft hon:

3 = sgil wedi ei gyflawni

2 = sgil bron wedi ei gyflawni

1 = sgil yn cael ei ddatblygu

0 = heb ymdrin â'r sgil eto

Yn y bedwaredd golofn, o dan bob enw dysgwr, mae cyfartaledd y mewnbwn gwybodaeth yn y tair colofn flaenorol yn cael ei gyfrifo'n awtomatig. Os yw'r nifer hwn yn 2.5 neu'n fwy, bernir bod y datganiad disgwyliadau wedi ei gyflawni a bydd y gell yn troi'n wyrdd. Ar gyfer gwerthoedd o lai na 2.5 mae'r gell yn troi'n goch.

Bydd y ffurflen hon yn cynhyrchu golwg gyffredinol o ba ddatganiadau disgwyliadau sydd wedi'u cwrdd a'r rhai nad ydyn nhw wedi'u cwrdd. Bydd yr wybodaeth hon yn helpu athrawon i gynllunio tasgau priodol a bydd yn darparu proffil dysgwr manwl ar gyfer pontio rhwng dosbarthiadau a chyfnodau allweddol. Gall hefyd ddarparu gwybodaeth werthfawr ar gyfer ysgrifennu adroddiadau.

# Atodiad 3: Adnoddau defnyddiol

## Llywodraeth Cymru

*Asesu ar gyfer dysgu a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol* (2013)
www.learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/publications/131104-assessment-for-learning-and-the-nlnf-cy.pdf

*Rhaglen Gymorth Genedlaethol canllaw ar gyfer ysgolion* (Rhan 2a, tt.144–148) (2013)
www.learning.wales.gov.uk/resources/nsp-guide/?skip=1&lang=cy

Cymunedau dysgu proffesiynol
www.learning.wales.gov.uk/yourcareer/professional-learning-communities/?skip=1&lang=cy

*Pam ddatblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn yr ystafell ddosbarth?* (2010)
www.cymru.gov.uk/dcells/publications/curriculum_and_assessment/developingthinkingassessment/developthinkingw.pdf?lang=cy

## Estyn

*Hanes o wydnwch a dyfalbarhad* – astudiaeth achos arfer orau o ysgol uwchradd
www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/226426.2/Hanes%20o%20wydnwch%20a%20dyfalbarhad/?navmap=33,53,159

*Asesu ar gyfer dysgu a medrau meddwl yn cael y flaenoriaeth* – astudiaeth achos arfer orau o ysgol gynradd
www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/209773.2/Asesu%20ar%20gyfer%20dysgu%20a%20medrau%20meddwl%20yn%20cael%20y%20flaenoriaeth%20/?navmap=33,53,158

## Arall

Cyfeiriad fideos Dylan Wiliam (Saesneg yn unig)
www.journeytoexcellence.org.uk/videos/expertspeakers/assessmentforlearningdylanwiliam.asp